CERDDORIAETH YM MANGOR

Cyfres Gyngherddau

Gwanwyn 2012

MUSIC AT BANGOR

Concert Series

Spring 2012

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

Cerddoriaeth ym Mangor

Croeso i Cerddoriaeth ym Mangor, cyfres gyngherddau amlycaf gogledd orllewin Cymru, ac un o gyfraniadau hynaf y Brifysgol tuag at fywyd diwylliannol y rhanbarth, gyda pherfformiadau gan artistiaid proffesiynol a'r doniau gorau o blith y myfyrwyr, bron bob wythnos yn ystod y tymor Prifysgol.

Cyllidir y gyfres gan Brifysgol Bangor, a threfnir hi mewn cydweithrediad agos ag Ysgol Cerddoriaeth y Brifysgol, y mae ei safonau o ran addysgu ac ymchwil wedi'u cydnabod yn rhyngwladol. Ategir y gyfres gan nifer o weithgareddau estyn braich; ewch i wefan Cerddoriaeth ym Mangor am fwy o wybodaeth.

Mae'r llyfryn hwn yn rhestru digwyddiadau sydd i'w cynnal rhwng Ionawr a Mehefin 2012. Bydd y llyfryn nesaf yn rhoi manylion am ddigwyddiadau a gynhelir rhwng Medi a Rhagfyr 2012, a chyhoeddir ef yn yr haf. Os hoffech gael copi am ddim trwy'r post, cysylltwch â ni.

AMSEROEDD CYNGHERDDAU Sylwch ar yr amser cychwyn sydd i'w weld wrth ochr pob cyngerdd, gan fod hwn yn amrywio o gyngerdd i gyngerdd. Fel rheol, ni ellir derbyn hwyrddyfodiaid hyd nes y ceir seibiant addas yn y perfformiad, a hynny yn ôl doethineb y rhai sy'n staffio'r drysau.

Music at Bangor

Welcome to Music at Bangor, north-west Wales's foremost concert series, and one of the University's longest-established contributions to the cultural life of the region, with performances by professional artists and the very best student talent almost every week during the University term.

The series is funded primarily by Bangor University, and is organised in close collaboration with the University's School of Music, whose standards in teaching and research are recognised internationally. The series is supported by a programme of outreach activities; see the Music at Bangor website for more information.

This brochure lists events taking place between January and June 2012. The next brochure, detailing events between September and December 2012, will be published in the summer. If you would like to receive a free copy by post, please contact us.

CONCERT TIMES Please note the start time as indicated against each concert, as this varies from concert to concert. Latecomers cannot normally be admitted until a suitable break in the performance, and at the discretion of front of house staff.

*Nos Sadwrn 28 Ionawr, Neuadd Prichard-Jones, 7.30pm

LAUREN REDHEAD (Organ)

Bydd rhaglen Lauren yn dathlu'r organ fel offeryn cyfoethog o ran posibiliadau. Bydd hi'n cyflwyno cerddoriaeth sy'n portreadu'r organ fel offeryn sy'n perthyn i'r gorffennol a'r presennol, gan berfformio rhai gweithiau o eiddo Benjamin Britten na chlywir mohonynt yn aml, ochr yn ochr â dau waith newydd a ysgrifennwyd yn benodol ar gyfer yr achlysur. Mae'r rhaglen yn dod â themâu cyfoethog o ran harmoni a pholyffoni at ei gilydd o fewn cerddoriaeth y 19eg ganrif, yr 20fed ganrif a'r 21ain ganrif.

Organydd a chyfansoddwraig o Fanceinion yw Lauren Redhead, sydd bellach yn byw yng Ngorllewin Swydd Efrog. Mae hi wedi perfformio am y tro cyntaf weithiau gan Chris Newman, Nick Williams, Scott McLaughlin, Caroline Lucas ac Adam Fergler, ymysg eraill.

Prisiau arbennig: £10 pris llawn; £7 gostyngiad; £5 myfyrwyr.

Llun/Photo: Manuel Miethe

*Saturday 28 January, Prichard-Jones Hall, 7.30pm

LAUREN REDHEAD (Organ)

Lauren's programme will celebrate the organ as an instrument of rich possibilities. She will present music which situates the organ as belonging to both the past and the present, performing some rarely-heard works by Benjamin Britten alongside two new works specially written for the occasion. The programme brings together themes of rich harmony and polyphony within music from the nineteenth, twentieth, and twenty first centuries.

Lauren Redhead is an organist and a composer from Manchester, who now lives in West Yorkshire. She has premiered works by, amongst others, Chris Newman, Nick Williams, Scott McLaughlin, Caroline Lucas and Adam Fergler.

Special prices: £10 full price; £7 concessions; £5 students.

*Nos Iau 9 Chwefror, Neuadd Powis, 8.00pm

ENSEMBLE CYMRU

Mozart: Pumawd i'r Corn Ffrengig, K. 407
Weber: Pumawd i'r Clarinét yn B meddalnod fwyaf, Op. 34
Dafydd Bullock: Pedwarawd Rhif 3 ('Fachwen'), Op. 107
John Ireland: Chwechawd (1898)

Cyfansoddwyd chwechawd delynegol John Ireland ychydig cyn i gerddoriaeth Stravinsky, Ravel a Debussy gael dylanwad mawr arno. Ysbrydoliaeth tirlun gogoneddus llecyn yn ardal Llanberis gyda'i olygfeydd syfrdanol o fynyddoedd Eryri ysgogodd Dafydd Bullock i gyfansoddi 'Fachwen'. Yna cawn ein tywys o ddrama mynyddoedd Cymreig i ddrama fawr cerddoriaeth Weber. Mae pumawd Weber yn dangos ei ddylanwadau o fyd opera drwy linellau alawon llawn mynegiant. Coronir y cwbl gyda phumawd Mozart ar gyfer 2 feiolin, 2 fiola a sielo sydd yn dangos ambell ennyd o Mozart ar ei orau.

Perfformiad Harlecwin cyn y cyngerdd am 7.10 pm

*Thursday 9 February, Powis Hall, 8.00pm

ENSEMBLE CYMRU

Mozart: Horn Quintet, K. 407
Weber: Clarinet Quintet in B flat major, Op. 34
Dafydd Bullock: Quartet No. 3 ('Fachwen'), Op. 107
John Ireland: Sextet (1898)

John Ireland's Sextet is both poetic and lyrical being music just predating the profound impact which the music of Stravinsky, Ravel and Debussy subsequently would have on him. 'Fachwen' by Dafydd Bullock draws its inspiration from the idyllic location near Llanberis with its stunning views of the Snowdonia mountain range. The performers then take us from the drama of Welsh mountains to the high drama of Weber's music. Weber's Quintet demonstrates its influences from the world of opera by virtue of the high degree of virtuosity and supremely expressive melodic lines. Mozart's Horn Quintet scored for 2 violins, 2 violas and cello has moments of Mozart at his best.

Pre-concert Harlequin performance at 7.10 pm

*Nos Iau 16 Chwefror, Neuadd Powis, 8.00pm

FANTASTICUS (ensemble Baróc)

Rie Kimura (ffidil faróc)
Robert Smith (viola da gamba)
Pieter-Jan Belder (harpsicord)

Marin Marais: *Sonnerie de Sainte-Geneviève du Mont de Paris*
Dieterich Buxtehude: Sonata a 2 yn B meddalnod fwyaf
John Jenkins: Ffantasi yn D leiaf
Francesco Maria Veracini: *Sonata Accademiche* Op. 2 Rhif 5 yn G leiaf
Dieterich Buxtehude: Sonata a 2 yn A leiaf, BuxWV 272
Antoine Forqueray: *Pièces de viole, 1e Suite*
Jean-Philippe Rameau: *Pièces de Clavecin en Concerts – Cinquième Concert*

Wedi'i ysbrydoli gan y gerddoriaeth benigamp a gogoneddus o ddiwedd yr 17eg ganrif, a gafodd yr enw 'Stylus Fantasticus', amcan yr *ensemble* yw ail-greu *repertoire* o ddechrau'r *seicento* hyd at ddiwedd y cyfnod baróc, gan chwilio a fforio trwy'r afradlonedd a ffynnai pan fentrai cyfansoddwyr ac offerynwyr y tu hwnt i derfynau'r normau a oedd wedi'u pennu.

*Thursday 16 February, Powis Hall, 8.00pm

FANTASTICUS (Baroque ensemble)

Rie Kimura (baroque violin)
Robert Smith (viola da gamba)
Pieter-Jan Belder (harpsichord)

Marin Marais: *Sonnerie de Sainte-Geneviève du Mont de Paris*
Dieterich Buxtehude: Sonata a 2 in B flat major
John Jenkins: Fantasy in D minor
Francesco Maria Veracini: *Sonata Accademiche* Op.2 No. 5 in G minor
Dieterich Buxtehude: Sonata a 2 in A minor, BuxWV 272
Antoine Forqueray: *Pièces de viole, 1e Suite*
Jean-Philippe Rameau: *Pièces de Clavecin en Concerts - Cinquième Concert*

Inspired by the gloriously virtuosic music from the end of the 17th century, from which the name 'Stylus Fantasticus' came, the ensemble recreates repertoire from the early *seicento* to the late baroque, exploring the extravagance that flourished when composers and instrumentalists dared to traverse the established limits of the normal.

*Nos Sadwrn 18 Chwefror, Eglwys Gadeiriol Bangor, 7.30pm

CERDDORIAETH GYNNAR BANGOR gyda FANTASTICUS

Chris Collins, Thomas Schmidt-Beste a Christian Leitmeir (cyfarwyddwyr)

Yng nghyngerdd y semester hwn, bydd offerynwyr Baróc Cerddoriaeth Gynnar Bangor yn ymuno â Fantasticus. Ynghyd â'u cyngerdd eu hunain sydd i'w chynnal ar 16 Chwefror, bydd y perfformwyr penigamp hyn yn gweithio gyda'r myfyrwyr cerddoriaeth am sawl diwrnod, a hynny'n arwain at berfformiadau o concerti gan Handel (Concerto Grosso Op. 6 rhif 10), Telemann (Cyfres ar gyfer Viola da Gamba a Llinynnau), Vivaldi (Concerto Op. 3 rhif 11) ar gyfer dwy ffidil a llinynnau) a Corelli (Concerto Grosso Op. 6 rhif 4), ynghyd â gweithiau siambr o'r 17eg ganrif.

Wedi sawl cyngerdd yn canolbwyntio ar repertoire o Ffrainc a'r Eidal, bydd ensemble lleisiol Cerddoriaeth Gynnar yn troi ei sylw at gerddoriaeth o Ddeheudir yr Almaen ac Awstria c. 1500; darn gogoneddus Ludwig Senfl i chwe llais, *Ave Maria ... virgo serena*, fydd y prif ddarn, gyda motetau a chaneuon eraill gan Senfl a chan ei athro Heinrich Isaac.

*Saturday 18 February, Bangor Cathedral, 7.30pm

EARLY MUSIC BANGOR with FANTASTICUS

Chris Collins, Thomas Schmidt-Beste and Christian Leitmeir (directors)

The Baroque instrumentalists of Early Music Bangor are joined in this semester's concert by Fantasticus. Alongside their own concert on 16 February, these virtuoso performers will work with the student musicians for several days, culminating in the performances of concerti by Handel (Concerto Grosso Op. 6 no. 10), Telemann (Suite for Viola da Gamba and Strings), Vivaldi (Concerto Op. 3 no. 11) for two violins and strings) and Corelli (Concerto Grosso Op. 6 no. 4), alongside chamber works from the seventeenth century.

The Early music vocal ensemble, after several concerts focusing on French and Italian repertoire, will turn their attention on music from Southern Germany and Austria c. 1500; the centrepiece will be Ludwig Senfl's glorious six-voice *Ave Maria ... virgo serena*, complemented by other motets and songs by Senfl and by his teacher Heinrich Isaac.

*Nos Sadwrn 25 Chwefor, Neuadd Prichard-Jones, 7.30pm

CERDDORFA SYMFFONI PRIFYSGOL BANGOR

Mared Emlyn (telyn)
Chris Collins (arweinydd)

Falla: *El amor brujo*, G. 68
Ginastera: Concerto i Delyn, Op. 25
Schumann: Symffoni Rhif 4 yn D leiaf, Op. 120

Mae Cerddorfa Symffoni'r Brifysgol yn archwilio nawsau a rhythmau Sbaen ac America Ladin gyda pherfformiadau o sgôr bale liwgar Manuel de Falla El amor brujo (dan arweiniad arbenigwr o fri rhyngwladol, Chris Collins) a Concerto cyffrous a phenigamp y cyfansoddwr Alberto Ginastera i Delyn. Yn ail hanner y gyngerdd, ceir gwrthgyferbyniad llwyr, sef un o symffoniau gwychaf a mwyaf personol Schumann, a ysgrifennwyd ym 1841 fel anrheg ben blwydd i'w wraig Clara. Yn waith rhamantaidd gogoneddus, mae'r Bedwaredd Symffoni'n nodedig am y teimladau dwys a fynegir, a'i phedwar symudiad wedi'u huno gan un thema gyffredin.



© Beth Haves

*Saturday 25 February, Prichard-Jones Hall, 7.30pm

BANGOR UNIVERSITY SYMPHONY ORCHESTRA

Mared Emlyn (harp)
Chris Collins (conductor)

Falla: *El amor brujo*, G. 68
Ginastera: Harp Concerto, Op. 25
Schumann: Symphony No. 4 in D minor, Op. 120

The University Symphony Orchestra explores the moods and rhythms of Spain and Latin America with performances of Manuel de Falla's colourful ballet score El amor brujo (under internationally renowned Falla expert Chris Collins) and the Argentinian composer Alberto Ginastera's excitingly virtuosic Harp Concerto. The second half of the concert presents a complete contrast, with one of Schumann's finest and most personal symphonies, written in 1841 as a birthday gift for his wife Clara. A gloriously romantic work, the Fourth Symphony is remarkable for its intensity of feeling, its four conjoined movements unified by a single theme.

Eisteddfod yr Urdd
Eryri, 04/06 – 09/06

urdd.org

Cyngerdd Mawreddog

Neuadd Prichard-Jones, Prifysgol Bangor
Nos Wener, Mawrth 2ail, 2012 am 7.00 o'r gloch

Band Jazz Ysgol Tryfan • Côr Meibion Dinas Bangor
Côr Meibion y Penrhyn
Côr Neuadd Syr John Morris Jones
Casi Wyn • Ysgol y Garnedd • Dewi Elis Jones

Tocynnau: £5
(Nid yw'r digwyddiad yn rhan o gynllun Tocyn Tymor, Cerddoriaeth ym Mangor)

Tocynnau ar werth yn y mannau canlynol:
Palas Print (Bangor a Chaernarfon)
Awen Menai (Porthaethwy)
Recordiau Cob (Bangor) • Siop John (Bethesda)
Cwpwrdd Cornel (Llangefni) • Siop Hwylus (Penrhosgarnedd)
neu ar-lein www.bangor.ac.uk/cyngherddau

Grand Concert

Prichard-Jones Hall, Bangor University
Friday, 2nd March, 2012 at 7.00 pm

A fundraising concert in aid of the 2012 Urdd National Eisteddfod at Glynllifon, Caernarfon. A celebration of Welsh culture.

Ysgol Tryfan Jazz Band • Bangor City Male Voice Choir
Penrhyn Male Voice Choir
Syr John Morris Jones Hall Choir
Casi Wyn • Ysgol y Garnedd • Dewi Elis Jones

Tickets: £5 (Not included in the Music at Bangor season ticket)

Tickets on sale here:
Palas Print (Bangor & Caernarfon) • Awen Menai (Menai Bridge)
Cob Records (Bangor) • Siop John (Bethesda)
Cwpwrdd Cornel (Llangefni) • Convenience Store (Penrhosgarnedd)
or on-line www.bangor.ac.uk/concerts

PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

*Nos Sadwrn 3 Mawrth, Neuadd Powis, 7.30pm

HUW WARREN & IAIN BALLAMY

Mae Iain Bellamy yn ymuno â phianydd jazz mwyaf adnabyddus Gogledd Cymru ar gyfer cyngerdd o gerddoriaeth yn seiliedig ar storïau *Kiss Kiss* Roald Dahl.

A hwythau wedi'u disgrifio'n ddiweddar gan y Guardian fel "enduringly innovative", mae Warren a Bellamy ar flaen y gad ar sîn jazz y DU ers 20 mlynedd. Mae'r ddau wedi ennill gwobr Jazz y BBC am Arloesi, ac yn cyfansoddi a pherfformio gweithiau sy'n croesi'n rhwydd y ffiniau rhwng Jazz, Cerddoriaeth Werin a Cherddoriaeth Fyd-Eang. Gan gyfuno chwarae byrfyfyr penigamp â thelynegiaeth ddwys, mae cerddoriaeth gan gyfansoddwyr mor amrywiol â John Dowland, Hermeto Pascoal a Chopin wedi dylanwadu ar eu repertoire, sydd bob amser wedi'i seilio ar synnwyr digrifwch ysgafn. Yn ddiweddar, buont yn cyflwyno cyfres estynedig newydd o eiddo Huw Warren yn Kings Place, Llundain, ac maent hefyd yn rhan o driawd "Quercus" gyda'r gantores June Tabor.

*Saturday 3 March, Powis Hall, 7.30pm

HUW WARREN & IAIN BALLAMY

North Wales's best-known jazz pianist is joined by Iain Ballamy for a concert of music based on Roald Dahl's *Kiss Kiss* stories.

Recently described by the Guardian as "enduringly innovative" Warren and Ballamy have been at the cutting edge of the UK Jazz scene for the last 20 years. Both are winners of the BBC Jazz award for Innovation, and are composers and performers whose work easily crosses the divides between Jazz, Folk and World music. Combining virtuoso improvising with deep lyicism their repertoire is influenced by music as varied as John Dowland, Hermeto Pascoal and Chopin,and always underpinned by a gentle sense of humour. They recently presented a new extended suite of Huw Warren's at London's Kings Place and are also part of the trio "Quercus" with singer June Tabor.

Nos Wener 23 Mawrth, Neuadd Prichard-Jones, 7.30pm

CERDDORFA GENEDLAETHOL GYMREIG Y BBC

Jac van Steen (arweinydd)
Vilde Frang (ffidil)

Tchaikovsky: *Agorawd-Ffantasia Hamlet*, Op. 67a
Bruch: Concerto Ffidil Rhif 1 yn G leiaf, Op. 26
Dvořák: Symffoni Rhif 7 yn D leiaf, Op. 70

Yn ei Seithfed Symffoni cefnodd Dvořák ar ei bersonoliaeth siriol a llon arferol i greu drama dywyll, ddu ac athrist ei hansawdd. Mae Concerto Ffidil Cyntaf Bruch yn un o'r concerti mwyaf cyfarwydd ac agosaf at ein calonnau, yn ddigymell, yn angerddol ac yn felodig ysbrydoledig - soniarus a swynol, chwedl y ffidler enwog Joseph Joachim. Clywir y ddau nesaf at ddrama ramantaidd drwmfyfyriol agorawd *Hamlet* gan Tchaikovsky.

Friday 23 March, Prichard-Jones Hall, 7.30pm

BBC NATIONAL ORCHESTRA OF WALES

Jac van Steen (conductor)
Vilde Frang (violin)

Tchaikovsky: *Hamlet Overture-Fantasy,* Op. 67a
Bruch: Violin Concerto No. 1 in G minor, Op. 26
Dvořák: Symphony No. 7 in D minor, Op. 70

In his Seventh Symphony Dvořák cast aside his usual sunny and cheerful personality to create a drama of dark-grained swarthy tragedy. Spontaneous, passionate and melodically inspired, Bruch's First Violin Concerto is one of the best known and loved of all concertos, described by Joachim as rich and enchanting. Both are heard next to the brooding romantic drama of Tchaikovsky's overture, *Hamlet.*

Prisiau tocynnau arbennig: pris llawn £12.50; pensiynwyr, hawlwyr budd-dal a'r anabl (yn cynnwys cydymaith i rywun anabl) £10.50; myfyrwyr £6, teulu (1 oedolyn + 1-2 o blant) £11, teulu (2 oedolyn + 1-4 o blant) £16.50.
Gostyngiad grŵp: prynwch ddeg tocyn i gael yr unfed-ar-ddeg am ddim.

Ar werth ymlaen llaw o Linell Cynulleidfa Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC (rhadffon 0800 052 1812, neu o swyddfa docynnau ar-lein Cerddoriaeth ym Mangor).

Byddai'n syniad da iawn ichi brynu tocynnau ymlaen llaw, gan nad oes sicrwydd y bydd tocynnau ar gael wrth y drws ar noson y gyngerdd.

Heb ei chynnwys yn nhocyn tymor Cerddoriaeth ym Mangor.

Special ticket prices apply: full price £12.50; senior citizens, claimants and disabled (including disabled companion) £10.50; student £6; family (1 adult + 1 to 2 children) £11, family (2 adults + 1 to 4 children) £16.50.
Group discount: buy ten tickets, get the eleventh free.

On sale in advance from the BBC National Orchestra of Wales Audience Line (freephone 0800 052 1812) or from the Music at Bangor online box-office.

It is strongly recommended that tickets are bought in advance, as there is no guarantee that tickets will be available on the door on the night of the concert.

Not included in the Music at Bangor season ticket.

PEDWARAWD LLINYNNOL ALLEGRI

*Nos Fercher 18 Ebrill, Neuadd Powis, 8.00pm
Beethoven: Pedwarawd yn C leiaf, Op. 18, Rhif 4
Shostakovich: Pedwarawd Rhif 7 yn F llonnod leiaf, Op. 108
Beethoven: Pedwarawd yn C llonod leiaf, Op. 131

*Nos Iau 19 Ebrill, Neuadd Powis, 8.00pm
Beethoven: Pedwarawd yn A fwyaf, Op. 18, Rhif 5
Anthony Payne: Pedwarawd Rhif 2
Borodin: Pedwarawd Rhif 2 yn D fwyaf

*Dydd Gwener 20 Ebrill, Neuadd Prichard-Jones, 1.15pm
Beethoven: Pedwarawd yn B meddalnod fwyaf, Op. 18, Rhif 6
Shostakovich: Pedwarawd Rhif 8 yn C leiaf, Op. 110

ALLEGRI STRING QUARTET

*Wednesday 18 April, Powis Hall, 8.00pm
Beethoven: Quartet in C minor, Op. 18, No. 4
Shostakovich: Quartet No. 7 in F sharp minor, Op. 108
Beethoven: Quartet in C sharp minor, Op. 131

*Thursday 19 April, Powis Hall, 8.00pm
Beethoven: Quartet in A major, Op. 18, No. 5
Anthony Payne: Quartet No. 2
Borodin: Quartet No. 2 in D major

*Friday 20 April, Prichard-Jones Hall, 1.15pm
Beethoven: Quartet in B flat major, Op. 18, No. 6
Shostakovich: Quartet No. 8 in C minor, Op. 110

Dorothea Vogel (Fiola)
Ofer Falk (Ffidil)
Rafael Todes (Ffidil)
Katherine Jenkinson (Cello)

Daw un o bedwarawdau llinynnol mwyaf y byd yn ôl i Fangor ar gyfer tri diwrnod o breswyliad. Cyflwynir mewn cysylltiad ag Ymddiriedolaeth Radcliffe.

Pedwarawd Allegri yw'r ensemble cerddoriaeth siambr hynaf yng Ngwledydd Prydain, ac mae wedi'i gynnal ers chwe degawd gan genedlaethau dilynol o'r perfformwyr rhyngwladol gorau. Mae ei enw da am ddehongliadau nodedig a chyffrous wedi'i wreiddio mewn traddodiad ond, serch hynny, yn fyw i dueddiadau cyfoes.

Mae prisiau arbennig ar gyfer tocynnau'r gyngerdd awr ginio ddydd Gwener: £6 pris llawn; £4 gostyngiad; £2 myfyrwyr.

Dorothea Vogel (Viola)
Ofer Falk (Violin)
Rafael Todes (Violin)
Katherine Jenkinson (Cello)

One of the world's greatest string quartets returns to Bangor for a three-day residency. Presented in association with the Radcliffe Trust.

The Allegri Quartet is Britain's longest-running chamber music ensemble, sustained over six decades by successive generations of the finest international performers. Their reputation for distinctive and stimulating interpretations is rooted in tradition yet alive to contemporary trends.

Special ticket prices apply for the Friday lunchtime recital: £6 full price; £4 concessions; £2 students.

*Nos Iau 26 Ebrill, Neuadd Powis, 8.00pm

CÔR SIAMBR PRIFYSGOL BANGOR

Guto Puw (arweinydd)
Graeme Cotterill (cyfeilydd)

Mae'r cyngerdd hwn yn archwiliad o gerddoriaeth grefyddol gan gyfansoddwyr Eidalaidd o gyfnod y Dadenni hwyr hyd y Baróc. Yn ganolbwynt i'r cyngerdd ceir dau waith sylweddol *a cappella* o'r ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed ganrif, yn enwol *Missa a 4 Voci* gan Claudio Monteverdi a'r *Missa quatuor vocum* gan Domenico Scarlatti. Bydd gweddill y rhaglen yn cynnwys darnau byrrach gan Lotti, Pergolesi a Palestrina.

© Stephen Rees

*Thursday 26 April, Powis Hall, 8.00pm

BANGOR UNIVERSITY CHAMBER CHOIR

Guto Pryderi Puw (conductor)
Graeme Cotterill (accompanist)

This concert is an exploration of sacred music by Italian composers from the late Renaissance to the Baroque. Taking centre stage are two significant a cappella works from the seventeenth and eighteenth centuries respectively: Claudio Monteverdi's *Missa a 4 Voci* and Domenico Scarlatti's *Missa quatuor vocum*. The programme will also include shorter pieces by Lotti, Pergolesi and Palestrina.

*Nos Sadwrn 5 Mai, Neuadd Prichard-Jones, 7.30pm

CORWS A CHERDDORFA SYMFFONI PRIFYSGOL BANGOR

Chris Collins (arweinydd)

Dvořák: *Stabat Mater*, Op. 58

Mae testun canoloesol *Stabat Mater* yn disgrifio dioddefaint Mair yn ystod croeshoeliad ei mab. Ychydig yn unig o osodiadau sy'n fwy teimladwy nag un Antonin Dvořák. Yn wreiddiol, lluniodd y cyfansoddwr y gwaith ar gyfer unawdwyr, corws a phiano, ym 1875, mewn ymateb i farwolaeth ei ferch Josefa. Pan fu farw'r ddau blentyn oedd ar ôl ganddo ymhen dwy flynedd, ehangu'r gwaith wnaeth y cyfansoddwr Tsiecaidd o fri, gan greu oratorio lawn gyda chyfeiliant cerddorfaol. Heno, bydd grŵp o unawdwyr proffesiynol yn ymuno â Chorws a Cherddorfa Prifysgol Bangor, ar gyfer perfformiad o'r gwaith prydferth a dwys hwn.

© Stephen Rees

*Saturday 5 May, Prichard-Jones Hall, 7.30pm

BANGOR UNIVERSITY SYMPHONY ORCHESTRA AND CHORUS

Chris Collins (conductor)

Dvořák: *Stabat Mater*, Op. 58

The medieval *Stabat Mater* text evokes the suffering of Mary during the crucifixion of her son. Few settings are more heartfelt than that of Antonín Dvořák. The work was originally written for soloists, chorus and piano in 1875, as a response to the death of his daughter Josefa. When his remaining two children died two years later, the great Czech composer expanded the work into a full-scale oratorio with orchestral accompaniment. The Chorus and Orchestra of Bangor University are joined this evening by a cast of professional soloists for a performance of this intensely beautiful work.

*Nos Wener 1 Mehefin, Neuadd Prichard-Jones, 7.30pm

CYNGERDD GALA DIWEDD Y FLWYDDYN

Daw tymor Cerddoriaeth ym Mangor i ben gyda chyngerdd olaf, draddodiadol i ddathlu, lle bydd *ensembles* y Brifysgol yn cyflwyno rhaglen o gerddoriaeth ysgafn a chlasuron poblogaidd. Mae *ensembles* sy'n cymryd rhan yn cynnwys Cerddorfa Symffoni Prifysgol Bangor, Côr Siambr Prifysgol Bangor, Band Cyngerdd Prifysgol Bangor a gwahanol grwpiau o fewn Cymdeithas Gerdd Prifysgol Bangor. Daw'r noson i ben gyda gwydraid am ddim o win Cava i bawb, ynghyd â chyfle ni ddod i adnabod y perfformwyr.

Gwerthwyd holl docynnau'r gyngerdd y llynedd, felly archebwch yn gynnar!

*Friday 1 June, Prichard-Jones Hall, 7.30pm

END OF YEAR GALA CONCERT

The Music at Bangor season draws to a close with its traditional celebratory finale, in which the University's performing ensembles present a programme of light music and popular classics. Ensembles taking part include the Bangor University Symphony Orchestra, Bangor University Chamber Choir, Bangor University Concert Band and various Bangor University Music Society groups. The evening concludes with a free glass of cava for everyone, and an opportunity to mingle with the performers.

Last year's gala concert was a sell-out: book early!

Cynhelir Cyngherddau Awr Ginio bob dydd Mawrth am 1pm yn Neuadd Powis. Ewch i wefan yr Ysgol Cerddoriaeth ar gyngherddau awr ginio am restr lawn o ddigwyddiadau: http://www.bangor.ac.uk/music/lunch_concerts.php.cy

Bydd yr Ysgol Cerddoriaeth yn cynnal symposiwm ar gerddoriaeth electronig ryngweithiol ar 10-12 Ebrill 2012, yn cynnwys y cyfansoddwr a'r artist sain o Awstria Karlheinz Essl. Am restr lawn o ddigwyddiadau, ewch i wefan y symposiwm: http://www.riskofshock.org/interactions.html

Mae croeso hefyd i chi ddod i arholiadau perfformio terfynol yr Ysgol Cerddoriaeth, sydd yn cael eu cynnal ym mis Mai ac yn agored i'r cyhoedd heb dâl. Ewch i wefan yr Ysgol Cerddoriaeth am ragor o fanylion: http://www.bangor.ac.uk/cerddoriaeth

Mae llwyddiant Prifysgol Bangor yn dyst i weledigaeth ac uchelgais ei sylfaenwyr. Yn yr un modd, mae cyfres 'Cerddoriaeth ym Mangor' y Brifysgol yn deyrnged i'r rheiny sydd wedi'i chefnogi trwy gydol ei hanes hir. Dros y blynyddoedd, mae cyfeillion y Brifysgol, aelodau staff yr Ysgol Cerddoriaeth a gwirfoddolwyr wedi sicrhau bod y gyfres yn parhau i chwarae rhan flaenllaw yng nghalendr y Brifysgol. Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bob un ohonoch sydd wedi cefnogi'r gyfres dros y blynyddoedd.
Os hoffech ddysgu mwy am sut y gellwch gefnogi cyfres 'Cerddoriaeth ym Mangor', cysylltwch â Swyddfa Ddatblygu Prifysgol Bangor, www.bangor.ac.uk/giving, ffôn 01248 382020, ebost development@bangor.ac.uk



Lunchtime Concerts take place every Tuesday at 1.00pm in Powis Hall. Please visit the School of Music lunchtime concert website for a full listing of events: http://www.bangor.ac.uk/music/lunch_concerts.php.en

The School of Music will host a symposium on interactive electronic music on 10-12 April 2012, featuring Austrian composer and sound artist Karlheinz Essl. For a full listing of events, please visit the symposium website: http://www.riskofshock.org/interactions.html

You are also welcome to attend the School of Music's final performance examinations, which are open to the public, free of charge and take place in May. Please visit the School website for more details: http://www.bangor.ac.uk/music

Bangor University's success is a testament to the foresight and ambition of its founding supporters. Similarly, the University's 'Music at Bangor' series is a tribute to those who have supported it throughout its long history. Friends of the University, Music School staff members and volunteers throughout the years have made sure that the series continues to play a leading role in the University's events calendar. We'd like to take this opportunity to thank all of you who've supported the 'Music at Bangor' series over the years.

If you would like to learn more about how you can support the 'Music at Bangor' Concert Series, please contact Bangor University's Development Office, www.bangor.ac.uk/giving, tel 01248 382020, email development@bangor.ac.uk

10-17 Mawrth

GŴYL GERDD NEWYDD BANGOR 2012

Dydd Sadwrn 10 Mawrth, Eglwys St Cybi, Caergybi, 11.00am - 5.00pm
WHO CAN HEAR THE SEA?
Gosodiad electroacwstig wedi ei ysbrydoli gan y môr gan Ed Wright, gyda pherfformiadau ychwanegol o gyfansoddiadau gan ddisgyblion Ysgol Llaingoch ac Ysgol y Parchedig Thomas Ellis.

Nos Lun 12 Mawrth, Galeri, Caernarfon, 7.30pm
GAIR AR GNAWD
Oratorio gan Pwyll ap Siôn a Menna Elfyn a berfformir gan Opera MAX.

Nos Fawrth 13 Mawrth, Neuadd Powis, 7.30pm
PORTREAD DENIS SMALLEY
ElectroacwstigCYMRU (cyfarwyddir gan Andrew Lewis)
Bydd y cyngerdd hwn yn cynnwys cerddoriaeth gan un o gyfansoddwyr mwyaf dylanwadol ei genhedlaeth, Denis Smalley, gyda pherfformiad o gyfansoddiadau gan ddisgyblion Ysgol Llaingoch ac Ysgol y Parchedig Thomas Ellis.

Nos Fercher 14 Mawrth, Neuadd Powis, 7.30pm
TITANIC FOR A BIKE
Trio Yuri Goloubev
Profwch y 'dechneg chwarae ddilychwin a'r teimlad jas perffaith' gan y Trio Yuri Goloubev talentog mewn cyngerdd sy'n ffurfio rhan o'u taith ar draws y DU i lansio eu CD Titanic for a Bike. Yn ogystal bydd y cyngerdd yn cynnwys perfformiad o gyfansoddiadau gan ddisgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen a pherfformiad gan Fand Mawr Ysgol Tryfan.

Nos Iau 15 Mawrth, Neuadd Powis, 7.30pm
JOHN CAGE - DIGWYDDIAD FLUXUS
Ensemble Cerddoriaeth Newydd Bangor gyda Xenia Pestova (piano)
Digwyddiad i ddathlu can mlwyddiant genedigaeth John Cage i gynnwys y *Living Room Music* a'r *Gyfres i Biano Tegan* anarferol ymysg darnau eraill, ynghyd â darnau arbrofol wedi eu hysbrydoli gan fudiad y Fluxus gan George Brecht, Luce Fiernes, Guto Pryderi Puw, Nia Davies Williams a La Monte Young.

Nos Wener 16 Mawrth, Neuadd Powis, 7.30pm
SUDDO'R TITANIC
Ensemble Cymru gyda Sioned Eleri Roberts (clarinét)
Cyngerdd i nodi can mlwyddiant y fordaith gyntaf dyngedfennol hon, gyda pherfformiad o'r darn eiconig *Sinking of the Titanic* gan Gavin Bryars ynghyd â *Morluniau Môn* gan Gareth Glyn a chomisiynau newydd gan Gareth Churchill a Kimon Emmanouil Grigoriadis. Yn ogystal fe berfformir darn newydd gan ddisgyblion Ysgol y Traeth, Abermaw.

10-17 March

BANGOR NEW MUSIC FESTIVAL 2012

Saturday 10 March, St Cybi's Church, Holyhead, 11.00am - 5.00pm
PWY ALL GLYWED Y MÔR?
An electroacoustic installation inspired by the sea and devised by Ed Wright, with additional performances of compositions by pupils from Ysgol Llaingoch and Ysgol y Parchedig Thomas Ellis.

Monday 12 March, Galeri, Caernarfon, 7.30pm
GAIR AR GNAWD
An oratorio by Pwyll ap Siôn and Menna Elfyn performed by Opera MAX.

Tuesday 13 March, Powis Hall, 7.30pm
DENIS SMALLEY PORTRAIT
ElectroacousticWALES (directed by Andrew Lewis)
This concert will feature the electroacoustic music of one of the country's most influential composers, Denis Smalley, with further performances of compositions by pupils from Ysgol Llaingoch and Ysgol Parchedig Thomas Ellis.

Wednesday 14 March, Powis Hall, 7.30pm
TITANIC FOR A BIKE
Yuri Goloubev Trio
Experience the 'impeccable playing technique and a perfect jazz feel' of the talented Yuri Goloubev Trio in a concert forming part of the UK tour launching their CD Titanic for a Bike. The concert will also feature performances of compositions by pupils from Ysgol Dyffryn Ogwen and a performance by the Ysgol Tryfan Big Band.

Thursday 15 March, Powis Hall, 7.30pm
JOHN CAGE - FLUXUS EVENT
Bangor New Music Ensemble with Xenia Pestova (piano)
A centenary event celebrating the birth of John Cage that will include the unusual *Living Room Music* and *Suite for Toy Piano* amongst other examples of his work, together with experimental pieces influenced by the Fluxus movement by George Brecht, Luce Fiernes, Guto Pryderi Puw, Nia Davies Williams and La Monte Young.

Friday 16 March, Powis Hall, 7.30pm
THE SINKING OF THE TITANIC
Ensemble Cymru with Sioned Eleri Roberts (clarinet)
A concert to mark the 100th anniversary of this fateful maiden voyage, with a performance of the iconic *Sinking of the Titanic* by Gavin Bryars alongside Gareth Glyn's *Anglesey Seascapes* and new commissions from Gareth Churchill and Kimon Emmanouil Grigoriadis. Also featured will be a new piece by pupils from Ysgol y Traeth, Barmouth.

Dydd Sadwrn 17 Mawrth, Ysgol Cerddoriaeth, 10.00am - 12.00 hanner dydd
DOSBARTH MEISTR ENSEMBLE CYMRU
Cyfle i chwaraewyr feiolin, fiola a sielo lleol i dderbyn tiwtorial gan aelodau o brif ensemblau siambr y wlad. Dylai'r safon fod yn Radd 7 neu uwch ac mae'n ofynnol cofrestru: cysylltwch â'r ŵyl am ragor o wybodaeth.
Ffioedd: Cyfranogwyr, £8; Mynychwyr, £5 / £3 (oedolion/addysg llawn amser).
(Cyflwynir y dosbarthiadau meistr hyn mewn cydweithrediad â'r Ysgol Cerddoriaeth Prifysgol Bangor, Canolfan Gerdd a Gwasanaeth Ysgolion William Mathias).

Saturday 17 March, School of Music, 10.00am - 12.00 noon
ENSEMBLE CYMRU MASTERCLASSES
An opportunity for local violinists, violists and cellists to receive individual tuition from members of Wales' premiere chamber ensemble. The standard should be Grade 7 or higher and registration is required: please contact the festival for further details.
Fees: for participants, £8; for audience members, £5 / £3 (adults/full-time education).
(These masterclasses are presented in collaboration with the School of Music, Bangor University, and the Canolfan Gerdd and Gwasanaeth Ysgolion William Mathias.)

SWYDDFA DOCYNNAU:
The Muse Bookshop 01248 362072

Prisiau tocynnau yn amrywio o £10 (oedolion), £7 (gostyngiadau), £5 (myfyrwyr), £3 (plant).
Am restr gyflawn o gyngherddau, gweithdai addysgol a digwyddiadau cymunedol, ewch i'r wefan: **www.ggnb.co.uk**
e-bost: **info@ggnb.co.uk**
ffôn: **01248 382181**

BOX OFFICE:
The Muse Bookshop 01248 362072

Tickets range from £10 (adults), £7 (concessions), £5 (students), £3 (children).
For a full list of concerts, educational workshops and community events, please visit the website: **www.bnmf.co.uk**
e-mail: **info@bnmf.co.uk**
tel: **01248 382181**

Cerddoriaeth ym Mangor: Gwybodaeth Cyffredinol

TOCYNNAU Gellwch brynu tocynnau ymlaen llaw, trwy wefan Cerddoriaeth ym Mangor neu gellwch eu prynu wrth y drws ar noson y gyngerdd.

Oni nodir fel arall, mae'r prisiau fel a ganlyn:

	Pris Llawn	Gostyngiadau#	Myfyriwr##
Neuadd Prichard-Jones	£12.00	£9.00	£5.00
Neuadd Powis ac Eglwys Gadeiriol Bangor	£10.00	£7.00	£5.00
Tocynnau Tymor	£110.00	£65.00	£27.50

Mae gostyngiadau ar gael ar gyfer pensiynwyr, pobl ddigyflog, rhai sydd wedi cofrestru'n anabl (a chynhalwyr)

Myfyrwyr 16+ oed ac mewn addysg lawn-amser

Teuluoedd Caiff un plentyn (dan 16) fynediad am ddim gyda phob oedolyn sydd gydag ef/hi, a gellir prynu tocynnau ar gyfer plant ychwanegol am £2 yr un.

Tocynnau tymor Mae tocynnau tymor ar gael, a gellir eu prynu wrth y drws ar noson unrhyw gyngerdd. Caiff deiliaid tocynnau tymor fynediad am ddim i'r holl gyngherddau sydd wedi'u nodi â * yn y llyfryn hwn, o Fedi hyd at Fehefin. Mae'r tocyn yn cynnig cryn arbediad; mae'r prisiau i'w gweld uchod. Mae tocynnau tymor cyfun hefyd ar gael am £190 (dau oedolyn pris llawn ynghyd) a £115 (dau ostyngiad ynghyd).

Music at Bangor: General Information

TICKETS Tickets for all Music at Bangor concerts may be purchased in advance through our website or on the door on the evening of the concert.

Unless otherwise indicated, prices are as follows:

	Full Price	Concessions#	Student##
Prichard-Jones Hall	£12.00	£9.00	£5.00
Powis Hall & Bangor Cathedral	£10.00	£7.00	£5.00
Season Tickets	£110.00	£65.00	£27.50

Concessions are available to pensioners, unwaged and registered disabled (plus carer)

Students aged 16 and over and in full-time education

Families One child (under 16) is admitted free with every accompanying adult, and tickets for additional children may be purchased at £2 each.

Season tickets Season tickets are available, and may be purchased on the door on the evening of any concert. Season ticket holders are entitled to free entry to all concerts indicated * in this brochure, from September through to June. The ticket represents a substantial saving; prices are shown above. Joint season tickets are also available for £190 (two full-price adults together) and £115 (two concessions together).

CYFLEUSTERAU AR GYFER POBL ANABL

Mae'r cyfleusterau isod ar gael:

- parcio o fewn cyrraedd;
- ramp mynediad ym mhrif fynedfa'r adeilad;
- cyfleusterau toiled o fewn cyrraedd;
- lifft i'r balconi yn Neuadd Prichard-Jones.

Ar gyfer yr holl gyngherddau yn Neuadd Prichard-Jones, gallwn drefnu i gynorthwywyr unigol fynd gyda defnyddwyr cadeiriau olwyn, ond rydym yn gofyn ichi wneud cais o leiaf wythnos ymlaen llaw. Rydym hefyd yn fodlon darparu testun y llyfr hwn mewn print mawr neu ar CD sain. Os gallwn roi unrhyw gymorth ichi, cysylltwch â ni, ar bob cyfrif, yn y cyfeiriad isod.

LLUNIAETH Mae te, coffi, diodydd ysgafn a byrbrydau masnach deg ar gael yn ystod egwyl pob cyngerdd gyda'r nos yn Neuadd Powis a Neuadd Prichard-Jones.

PARCIO CEIR Mae parcio ym maes parcio'r Brifysgol yn gyfyngedig i leoedd sydd wedi'u marcio.

FACILITIES FOR DISABLED PEOPLE

The following facilities are available:

- accessible parking;
- access ramp at the main entrance to the building;
- accessible toilet facilities;
- lift to the balcony in Prichard-Jones Hall.

For all concerts in the Prichard-Jones Hall, we can arrange for individual helpers to accompany wheelchair users, but we ask that application is made at least a week in advance. We are also happy to provide the text of this brochure in large print or on audio CD. If we can assist your visit in any way, please feel free to contact us.

REFRESHMENTS Fairtrade tea, coffee, soft drinks and snacks are available during the interval of every evening concert in the Powis and Prichard-Jones Halls.

CAR PARKING Parking in the University car park is restricted to the marked spaces.

RHESTR BOSTIO Os hoffech dderbyn gwybodaeth yn rheolaidd am Gerddoriaeth ym Mangor, gellwch roi eich enw ar y rhestr bostio. Anfonwch eich manylion cyswllt, yn cynnwys eich cyfeiriad e-bost (os yw'n berthnasol), i Swyddfa'r Gyfres Gyngherddau (manylion isod). Ni fyddwn yn cadw eich gwybodaeth ond er mwyn eich hysbysu am Brifysgol Bangor, ac ni fyddwn yn ei rhoi i sefydliadau eraill.

EIN CEFNOGI NI Mae'r gyfres gyngherddau bob amser yn ceisio estyn braich at y gymuned leol. Os oes gennych ddiddordeb mewn cynorthwyo o ran ein cyhoeddusrwydd neu drwy unrhyw ddull, neu os oes gennych unrhyw ymholiadau, awgrymiadau neu sylwadau, cysylltwch â ni.

GWEFAN www.bangor.ac.uk/cyngherddau

CYSWLLT Swyddfa Cyfres Gyngherddau'r Brifysgol,
Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau,
Prifysgol Bangor, Bangor,
Gwynedd, LL57 2DG.

Ffôn: 01248 382009
Ebost: cyngherddau@bangor.ac.uk

MAILING LIST If you would like to receive regular information about Music at Bangor you can sign up to the mailing list. Please send your contact details, including your email address (if applicable) to the Concert Series Office (details below). Your information will be kept solely for the purpose of informing you about Bangor University and will not be passed to other organisations.

SUPPORTING US The concert series is always looking to extend its reach into the local community. If you are interested in assisting with our publicity or supporting us in any way, or if you have any enquiries, suggestions and comments, please contact us.

WEBSITE www.bangor.ac.uk/concerts

CONTACT University Concert Series Office,
College of Arts & Humanities,
Bangor University, Bangor,
Gwynedd, LL57 2DG.

Telephone: 01248 382009
Email: concerts@bangor.ac.uk

www.bangor.ac.uk/cyngherddau
www.bangor.ac.uk/concerts

Mwy o wybodaeth:
www.bangor.ac.uk/cyngherddau
01248 382009
cyngherddau@bangor.ac.uk

Further information:
www.bangor.ac.uk/concerts
01248 382009
concerts@bangor.ac.uk

www.facebook.com/MusicAtBangor

www.twitter.com/MusicatB